CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL**

**CONWY**

**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

# IS-DDEDDFAU - CERBYDAU HACNI

**Gwnaed dan adran 68 Deddf Cymalau Heddlu Tref 1847, ac adran 171 Deddf Iechyd Cyhoeddus 1875, gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy parthed cerbydau hacni ym Mwrdeistref Sirol Conwy.**

# BYELAWS - HACKNEY CARRIAGES

**Made under section 68 of the Town Police Clauses Act 1847, and section 171 of the Public Health Act 1875, by the Conwy County Borough Council with respect to hackney carriages in the County Borough of Conwy.**

# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY

## IS-DDEDDFAU - Cerbydau Hacni

Gwnaed dan adran 68 Deddf Cymalau Heddlu Tref 1847, ac adran 171 Deddf Iechyd Cyhoeddus 1875, gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy parthed cerbydau hacni yn ardaloedd arwahanol: (1) cyn-Fwrdeistref Conwy, (2) cyn-Ardal Drefol Llandudno, (3) cyn-Ardal Drefol Betws-y-Coed, (4) cyn-Ardal Drefol Llanfairfechan, (5) cyn-Ardal Drefol Llanrwst, (6) cyn-Ardal Drefol Penmaenmawr, (7) y rhannau hynny o gyn-Fwrdeistref Aberconwy nad ydynt wedi'u cynnwys yn (1) i (6) uchod, (8) cyn-Fwrdeistref Colwyn.

**Dehongli**

1. Trwy gydol yr is-ddeddfau hyn, golyga "y Cyngor" GYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY a golyga "yr ardal" bob un o'r ardaloedd a ganlyn: (1) cyn-Fwrdeistref Conwy, (2) cyn-Ardal Drefol Llandudno, (3) cyn-Ardal Drefol Betws-y-Coed, (4) cyn-Ardal Drefol Llanfairfechan, (5) cyn-Ardal Drefol Llanrwst, (6) cyn-Ardal Drefol Penmaenmawr, (7) y rhannau hynny o gyn-Fwrdeistref Aberconwy nad ydynt wedi'u cynnwys yn (1) i (6) uchod, (8) cyn-Fwrdeistref Colwyn.

**Darpariaethau yn rheoli'r dull o arddangos rhif pob cerbyd hacni sy'n cyfateb i rif ei drwydded.**

2. (a) Rhaid i berchennog cerbyd hacni beri i rif y drwydded a roddwyd iddo parthed y cerbyd gael ei baentio neu ei farcio yn glir y tu mewn i'r cerbyd a'i osod mewn man amlwg y tu allan i'r cerbyd, ar y tu ôl a'r tu blaen, ar y platiau a ddarperir gan y Cyngor.

(b) Rhaid i berchennog neu yrrwr cerbyd hacni beidio:

(i) â pheri neu ganiatáu cuddio, yn fwriadol neu yn esgeulus, unrhyw rif o'r fath o olwg y cyhoedd tra bod y cerbyd yn sefyll neu'n disgwyl ei hurio;

(ii) â pheri neu ganiatáu i'r cerbyd sefyll neu ddisgwyl ei hurio gydag unrhyw baentio, farc neu blât o'r fath wedi ei anffurfio yn y fath fodd fel bod unrhyw ffigwr neu fanylyn pwysig yn annarllenadwy.

**Darpariaethau yn rheoli sut y dodrefnir neu y darperir cerbydau hacni**

3. Rhaid i berchennog cerbyd hacni:

(a) ddarparu ffyrdd digonol i unrhyw un yn y cerbyd gyfathrebu â'r gyrrwr;

# CONWY COUNTY BOROUGH COUNCIL

## BYELAWS - Hackney Carriages

Made under section 68 of the Town Police Clauses Act 1847, and section 171 of the Public Health Act 1875, by the Conwy County Borough Council with respect to hackney carriages in the several areas of (1) the former Borough of Conwy, (2) the former Urban District of Llandudno, (3) the former Urban District of Betws-y-Coed, (4) the former Urban District of Llanfairfechan, (5) the former Urban District of Llanrwst, (6) the former Urban District of Penmaenmawr, (7) those parts of the former Borough of Aberconwy not included in (1) to (6) above, (8) the former Borough of Colwyn.

**Interpretation**

1. Throughout these byelaws "the Council" means the CONWY COUNTY BOROUGH COUNCIL and 'the district' means each of (1) the former Borough of Conwy, (2) the former Urban District of Llandudno, (3) the former Urban District of Betws-y-Coed, (4) the former Urban District of Llanfairfechan, (5) the former Urban District of Llanrwst, (6) the former Urban District of Penmaenmawr, (7) those parts of the former Borough of Aberconwy not included in (1) to (6) above, (8) the former Borough of Colwyn.

**Provisions regulating the manner in which the number of each hackney carriage corresponding with the number of its licence, shall be displayed.**

2. (a) The proprietor of a hackney carriage shall cause the number of the licence granted to him in respect of the carriage to be legibly painted or marked on the inside of the carriage and prominently affixed on the outside of the carriage at the front and rear, on the plates provided by the Council.

   (b) A proprietor or driver of a hackney carriage shall not:

      (i) wilfully or negligently cause or permit any such number to be concealed from public view while the carriage is standing or plying for hire;
      (ii) cause or permit the carriage to stand or ply for hire with any such painting, marking or plate so defaced that any figure or material particular is illegible.

**Provisions regulating how hackney carriages are to be furnished or provided.**

3. The proprietor of a hackney carriage shall:

   (a) provide sufficient means by which any person in the carriage may communicate with the driver;

(b) beri bod y to neu'r gorchudd yn dal dwr;

(c) ddarparu unrhyw ffenestri angenrheidiol a dull o agor a chau heb fod yn llai nag un ffenestr bob ochr;

(d) beri bod y seddi wedi'u clustogi neu eu gorchuddio yn iawn;

(e) beri bod carped, mat neu orchudd addas arall ar y llawr;

(f) beri i'r ffitiadau a'r dodrefn yn gyffredinol gael eu cadw mewn cyflwr glân, eu cynnal yn dda ac yn addas ym mhob ffordd ar gyfer gwasanaeth cyhoeddus;

(g) ddarparu dull o ddiogelu a chludo paciau os yw'r cerbyd wedi ei wneud i gludo paciau;

(h) ddarparu diffoddydd tân effeithiol fydd yn cael ei gario fel ei bod yn hawdd ei gyrraedd i'w ddefnyddio; a

(i) darparu o leiaf ddau ddrws at ddefnydd pobl a gludir yn y cyfryw gerbyd a ffordd wahanol i mewn ac allan i'r gyrrwr.

4. Rhaid i berchennog cerbyd hacni beri i'r cerbyd fod â chloc tacsi fydd wedi ei wneud, ei osod a'i gynnal fel y bydd yn cydymffurfio â'r gofynion canlynol, sef:-

(a) bydd allwedd, fflag neu ddyfais arall wedi ei osod ar y cloc tacsi, fel y bydd, o'i weithio, yn cychwyn y cloc ac yn peri i'r gair **"HURIWYD"**, neu'r gair **"HIRED"**, ymddangos ar wyneb y cloc;

(b) rhaid medru cloi'r cyfryw allwedd, fflag neu ddyfais arall mewn safle fel nad yw mecanwaith y cloc tacsi yn gweithio ac na chofnodir pris teithio ar wyneb y cloc;

(c ) pan fydd mecanwaith cloc y tacsi yn gweithio, cofnodir ar wyneb y cloc mewn ffigyrau clir bris teithio sy'n cyfateb i'r gyfradd neu'r pris y mae gan y perchennog neu'r gyrrwr yr hawl i'w godi a'i gymryd am hurio'r cerbyd yn ôl amser a phellter yn unol â'r pris am daith a bennwyd gan y Cyngor;

(d) rhaid printio'r gair **"PRIS"** neu **"FARE"** ar wyneb cloc y tacsi mewn llythrennau clir fel ei bod yn amlwg mai cyfeirio y mae at y pris a godir yno;

(e) rhaid i gloc y tacsi fod wedi ei osod yn ddiogel ar ochr teithiwr y cerbyd o leiaf 50cm oddi ar lawr y cerbyd ac yn y fath fodd fel bod yr holl lythrennau a ffigyrau ar ei wyneb yn amlwg bob amser i unrhyw un a gludir yn y cerbyd, ac i'r perwyl hwnnw, rhaid medru goleuo'r llythrennau a'r ffigyrau mewn modd addas yn ystod unrhyw gyfnod hurio; a

(b) cause the roof or covering to be kept water-tight;

(c) provide any necessary windows and a means of opening and closing not less than one window on each side;

(d) cause the seats to be properly cushioned or covered;

(e) cause the floor to be provided with a proper carpet, mat, or other suitable covering;

(f) cause the fittings and furniture generally to be kept in a clean condition, well maintained and in every way fit for public service;

(g) provide means for securing and carrying luggage if the carriage is so constructed as to carry luggage;

(h) provide an efficient fire extinguisher which shall be carried in such a position as to be readily available for use; and

(i) provide at least two doors for the use of persons conveyed in such carriage and a separate means of ingress and egress for the driver.

4. The proprietor of a hackney carriage shall cause the same to be provided with a taximeter so constructed, attached and maintained as to comply with the following requirements, that is to say:-

(a) the taximeter shall be fitted with a key, flag, or other device, the operating of which will bring the machinery of the taximeter into action and cause the word **"HIRED"** or **"HURIWYD"** to appear on the face of the taximeter;

(b) such key, flag or other device shall be capable of being locked in such a position that the machinery of the taximeter is not in action and that no fare is recorded on the face of the taximeter;

(c) when the machinery of the taximeter is in action there shall be recorded on the face of the taximeter in clearly legible figures a fare equal to the rate or fare which the proprietor or driver is entitled to demand and take for the hire of the carriage by time and distance in pursuance of the tariff fixed by the Council;

(d) the word **"FARE"** or **"PRIS"** shall be printed on the face of the taximeter in plain letters so as clearly to apply to the fare recorded thereon;

(e) the taximeter shall be securely mounted on the passenger side of the carriage at least 50cm off the floor of the carriage and be so placed that all letters and figures on the face thereof are at all times plainly visible to any person being conveyed in the carriage, and for that purpose the letters and figures shall be capable of being suitably illuminated during any period of hiring; and

(f) rhaid i gloc y tacsi a'i holl ffitiadau fod wedi eu gosod ar y cerbyd gyda sêl neu ddyfais arall fel na fydd yn ymarferol i unrhyw un ymyrryd â hwy ac eithrio trwy eu torri, eu difrodi neu symud y sêl neu ddyfais arall yn barhaol.

**Darpariaethau yn rheoli ymddygiad perchenogion a gyrwyr cerbydau hacni sy'n gwneud eu gwahanol fathau o waith yn yr ardal, a phennu a ddylai gyrwyr o'r fath wisgo bathodynnau, ac os felly, sut rai.**

5. Rhaid i yrrwr cerbyd hacni:-

(a) pan fydd yn sefyll neu'n ceisio cael ei hurio, gadw'r allwedd, fflag neu ddyfais arall a ffitiwyd yn unol â'r is-ddeddf i'r perwyl hwnnw yn y safle lle na chofnodir pris ar wyneb cloc y tacsi;

(b) cyn cychwyn siwrnai y codir tâl amdani o ran pellter ac amser, roi cychwyn ar fecanwaith cloc y tacsi trwy symud y cyfryw allwedd, fflag neu ddyfais arall, fel bod y gair **"HURIWYD"** neu'r gair **"HIRED"** yn weladwy ar wyneb cloc y tacsi, a chadw mecanwaith cloc y tacsi yn rhedeg hyd nes bod yr hurio ar ben; a

(c ) beri bod wyneb cloc y tacsi wedi ei oleuo'n iawn trwy gydol unrhyw ran o gyfnod hurio sydd rhwng hanner awr wedi machlud haul a hanner awr cyn codiad haul, a hefyd ar unrhyw adeg arall ar gais yr huriwr.

6. Rhaid i berchennog neu yrrwr cerbyd hacni beidio ag ymyrryd ag unrhyw gloc tacsi sydd wedi'i osod yn y cerbyd, nac ychwaith â'i ffitiadau â'r sêl a osodwyd arno, na chaniatáu i unrhyw berson arall wneud hynny.

7. Rhaid i yrrwr cerbyd hacni, pan fydd yn ceisio cael ei hurio mewn unrhyw stryd, a heb mewn gwirionedd gael ei hurio:-

(a) fynd ar gyflymder rhesymol at un o'r safleoedd a bennwyd gan y Cyngor;

(b) os bydd y nifer llawn o gerbydau sydd â'r hawl i fod ar safle ar y safle hwnnw pan gyrhaedda yno, fynd i safle arall;

(c ) pan fydd yn cyrraedd safle lle nad oes y nifer llawn o gerbydau sydd â'r hawl i fod yno, roi'r cerbyd yn union y tu ôl i'r cerbyd neu'r cerbydau ar y safle fel ei fod yn wynebu'r un cyfeiriad; a

(f) the taximeter and all the fittings thereof shall be so affixed to the carriage with seals or other appliances that it shall not be practicable for any person to tamper with them except by breaking, damaging or permanently displacing the seals or other appliances.

**Provisions regulating the conduct of the proprietors and drivers of hackney carriages plying within the district in their several employments, and determining whether such drivers shall wear any and what badges.**

5. The driver of a hackney carriage shall:-

(a) when standing or plying for hire, keep the key, flag or other device fitted in pursuance of the byelaw in that behalf locked in the position in which no fare is recorded on the face of the taximeter;

(b) before beginning a journey for which a fare is charged for distance and time, bring the machinery of the taximeter into action by moving the said key, flag or other device, so that the word **"HIRED"** or the word **"HURIWYD"** is legible on the face of the taximeter and keep the machinery of the taximeter in action until the termination of the hiring; and

(c) cause the dial of the taximeter to be kept properly illuminated throughout any part of a hiring which is between half an hour after sunset and half an hour before sunrise, and also at any other time at the request of the hirer.

6. A proprietor or driver of a hackney carriage shall not tamper with or permit any person to tamper with any taximeter with which the carriage is provided, with the fittings thereof, or with the seals affixed thereto.

7. The driver of a hackney carriage shall, when plying for hire in any street and not actually hired:-

(a) proceed with reasonable speed to one of the stands appointed by the Council;

(b) if a stand, at the time of his arrival, is occupied by the full number of carriages authorised to occupy it, proceed to another stand;

(c) on arriving at a stand not already occupied by the full number of carriages authorised to occupy it, station the carriage immediately behind the carriage or carriages on the stand so as to face in the same direction; and

(d) o bryd i'w gilydd pan fydd unrhyw gerbyd arall yn union o'i flaen yn gyrru ymaith neu'n symud ymlaen, symud ei gerbyd ef ymlaen er mwyn llenwi'r fan lle'r oedd y cerbyd a yrrwyd ymaith neu a symudwyd ymlaen.

8. Pan fydd yn sefyll neu'n disgwyl cael ei hurio, rhaid i berchennog neu yrrwr cerbyd hacni beidio â defnyddio gwasanaeth neb arall i ddeisyfu unrhyw un i hurio'r cyfryw gerbyd.

9. Rhaid i yrrwr cerbyd hacni ymddwyn yn gwrtais ac yn weddus, a chymryd pob cam posibl i sicrhau diogelwch pawb a gludir yn y cerbyd neu sy'n esgyn neu'n disgyn ohono.

10. Os bydd perchennog neu yrrwr cerbyd hacni wedi cytuno neu wedi ei hurio i fod gyda'r cerbyd mewn man ac ar amser y cytunwyd arno, oni fydd rheswm digonol dros ei oedi neu ei atal, rhaid iddo fod yn y cyfryw le yn brydlon gyda'r cerbyd.

11. Rhaid i berchennog neu yrrwr cerbyd hacni beidio â chludo na chaniatáu cludo yn y cyfryw gerbyd fwy o bobl na'r nifer a nodir ar y platiau a osodwyd y tu allan i'r cerbyd.

12. Os darparwyd bathodyn gan y Cyngor a'i roi i yrrwr cerbyd hacni, rhaid iddo, wrth sefyll neu ddisgwyl cael ei hurio, a phan fydd wedi ei hurio, wisgo'r bathodyn fel ei fod i'w weld yn glir.

13. Pan fydd unrhyw un sy'n hurio neu'n ceisio hurio cerbyd yn gofyn iddo, rhaid i yrrwr cerbyd hacni sydd wedi'i wneud i gario paciau:-

(a) gludo swm rhesymol o baciau;

(b) roi cymorth rhesymol i lwytho a dadlwytho; a

(c ) rhoi cymorth rhesymol i'w symud i neu o fynedfa unrhyw adeilad, gorsaf neu fan lle gall godi neu ollwng y cyfryw berson.

(d) from time to time when any other carriage immediately in front is driven off or moved forward, cause the carriage to be moved forward so as to fill the place previously occupied by the carriage driven off or moved forward.

8. A proprietor or driver of a hackney carriage, when standing or plying for hire, shall not make use of the services of any other person to importune any person to hire such carriage.

9. The driver of a hackney carriage shall behave in a civil and orderly manner and shall take all reasonable precautions to ensure the safety of persons conveyed in or entering or alighting from the vehicle.

10. The proprietor or driver of a hackney carriage who has agreed or has been hired to be in attendance with the carriage at an appointed time and place shall, unless delayed or prevented by some sufficient cause, punctually attend with such carriage at such appointed time and place.

11. A proprietor or driver of a hackney carriage shall not convey or permit to be conveyed in such carriage any greater number of persons than the number of persons specified on the plates affixed to the outside of the carriage.

12. If a badge has been provided by the Council and delivered to the driver of a hackney carriage he shall, when standing or plying for hire, and when hired, wear the badge in such position and manner as to be plainly visible.

13. The driver of a hackney carriage so constructed as to carry luggage shall, when requested by any person hiring or seeking to hire the carriage:-

(a) convey a reasonable quantity of luggage;

(b) afford reasonable assistance in loading and unloading; and

(c) afford reasonable assistance in removing it to or from the entrance of any building, station, or place at which he may take up or set down such person.

14. Rhaid i bob gyrrwr cerbyd hacni bob amser pan fydd yn ceisio cael ei hurio neu'n gyrru wedi cael ei hurio, fod â chopi o'r is-ddeddfau hyn wrth law, ac os gofynnir iddo, rhaid iddo eu dangos i unrhyw un sydd eisiau neu yn hurio unrhyw gerbyd o'r fath.

**Darpariaethau yn gosod y cyfraddau neu'r prisiau i'w talu am gerbydau hacni yn yr ardal, a gofalu y cyhoeddir y cyfryw brisiau.**

15. Bydd gan berchennog neu yrrwr cerbyd hacni hawl i fynnu a chymryd am hurio'r cerbyd y gyfradd neu'r pris a bennir gan y Cyngor, a chaiff y gyfradd neu'r pris ei weithio allan yn ôl pellter ac amser oni ddywed yr huriwr ar gychwyn yr hurio ei f/bod am gyflogi yn ôl amser.

Ar yr amod yn wastad, lle bo cerbyd hacni sydd â chloc tacsi yn cael ei hurio yn ôl pellter ac amser, ni fydd gan y perchennog neu'r gyrrwr yr hawl i fynnu na chymryd pris sy'n uwch na'r hyn a gofnodir ar wyneb cloc y tacsi, ac eithrio am unrhyw daliadau ychwanegol a awdurdodir gan y Cyngor ac nad oes modd eu cofnodi ar wyneb cloc y tacsi.

16. (a) Rhaid i berchennog cerbyd hacni beri arddangos datganiad o'r prisiau a osodwyd trwy benderfyniad y Cyngor y tu mewn i'r cerbyd mewn llythrennau a ffigyrau clir.

(b) Rhaid i berchennog neu yrrwr cerbyd hacni sy'n dwyn datganiad prisiau yn unol â'r is-ddeddf hon beidio â pheri neu ganiatáu, yn fwriadol neu yn esgeulus, guddio neu wneud yn annarllenadwy y llythrennau na'r ffigyrau yn y datganiad ar unrhyw adeg tra defnyddir y cerbyd ar gyfer ceisio hurio neu hurio.

**Cosb**

17. Bydd unrhyw un sy'n troseddu yn erbyn unrhyw rai o'r is-ddeddfau hyn yn agored, o'i gael yn euog mewn llys ynadon, i ddirwy heb fod yn uwch na lefel 2 ar y gyfradd safonol ac yn achos parhau i droseddu, i ddirwy bellach heb fod dros ddwy bunt am bob dydd y pery'r drosedd wedi euogfarn am hynny.

**Diddymu Is-Ddeddfau**

18. Trwy hyn, diddymir yr is-ddeddfau yn ymwneud â cherbydau hacni a wnaed gan Gyngor Bwrdeistref Colwyn ar y 9fed dydd o Fawrth 1976 ac a gadarnhawyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar y 14ydd dydd o Fai 1976 a'r is-ddeddfau yn ymwneud â cherbydau hacni a wnaed gan Gyngor Bwrdeistref Aberconwy ar yr 22ain dydd o Ionawr 1980, ac a gadarnhawyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar y 29ain dydd o Chwefror 1980.

14. Every driver of a hackney carriage shall at all times when plying or driving for hire, have a copy of these byelaws ready to produce, and shall produce the same on request for inspection by any person seeking to hire or hiring such carriage.

**Provisions fixing the rates or fares to be paid for hackney carriages within the district, and securing the due publication of such fares.**

15. The proprietor or driver of a hackney carriage shall be entitled to demand and take for the hire of the carriage the rate or fare prescribed by the Council, the rate or fare being calculated by distance and time unless the hirer expresses at the commencement of the hiring his desire to engage by time.

Provided always that where a hackney carriage furnished with a taximeter shall be hired by distance and time the proprietor or driver thereof shall not be entitled to demand and take a fare greater than that recorded on the face of the taximeter, save for any extra charges authorised by the Council which it may not be possible to record on the face of the taximeter.

16. (a) The proprietor of a hackney carriage shall cause a statement of the fares fixed by Council resolution to be exhibited inside the carriage in clearly distinguishable letters and figures.

(b) The proprietor or driver of a hackney carriage bearing a statement of fares in accordance with this byelaw shall not wilfully or negligently cause or permit the letters or figures in the statement to be concealed or rendered illegible at any time while the carriage is plying or being used for hire.

**Penalties**

17. Every person who shall offend against any of these byelaws shall be liable on summary conviction to a fine not exceeding level 2 on the standard scale and in the case of a continuing offence to a further fine not exceeding two pounds for each day during which the offence continues after conviction therefor.

**Repeal of Byelaws**


18. The byelaws relating to hackney carriages which were made by the Colwyn Borough Council on the 9th day of March 1976 and which were confirmed by the Secretary of State on the 14th day of May 1976 and the byelaws relating to hackney carriages which were made by the Aberconwy Borough Council on the 22nd day of January 1980 and which were confirmed by the Secretary of State on the 29th day of February 1980, are hereby revoked.

**RHODDWYD dan SÊL GYFFREDIN**

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY**

**ar y** 17eg **dydd hwn o** Mawrth **2000**

**Swyddog ag Awdurdod i Selio**



3498

Cadarnheir yr is-ddeddfau uchod trwy hyn gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a byddant yn dod i rym ar y 1af dydd o FEDI 2000.

Llofnodwyd gydag awdurdod Cynulliad Cenedlaethol Cymru

..............................................................................

Pennaeth yr Adran Polisiau Trafnidiaeth

**GIVEN under the COMMON SEAL**

**of CONWY COUNTY BOROUGH COUNCIL**

JD **this** 17th **day of** March **2000**

**Authorised Sealing Officer**

3499

The forgoing byelaws are hereby confirmed by the National Assembly for Wales and shall come into force on the 1st day of SEPTEMBER 2000.

Signed by the authority of the National Assembly for Wales

.................................................................................

Head of Transport Policy Division